



## **Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy** **Conwy County National Eisteddfod** 2-10 Awst / August 2019

Byddwch yn falch o glywed fod y gronfa apêl leol i godi arian tuag at yr Eisteddfod yn tyfu ac mae aelodau'r pwyllgor apêl yn hynod o ddiolchgar am gyfraniadau arbennig rhai ardalwyr, cymdeithasau yn y pentref a'r rhai sydd wedi gadael y pentra' ond sy'n parhau i feddwl y byd o'r hen le.

Ydi mae'r gronfa yn tyfu ond mae £5000 yn dipyn o darged felly rhaid torchi llewys a dal ati!

Erbyn i chwi ddarllen y rhifyn yma o'r Cylchlythyr bydd Helfa Drysor i godi arian wedi cymryd lle ac mae trefniadau ar y gweill i gynnal Ocsiwn Addewidion yn y pentref ddiwedd yr Haf, dyddiad i'w gadarnhau. Mae'n fwriad gan y pwyllgor apêl i drefnu Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan i roi diweddariad am y sefyllfa ac efallai gael ambell awgrym am syniadau codi arian gennych. Ar hyn o bryd y dyddiad ar gyfer y cyfarfod yw Gorffennaf 12fed ond cadwch olwg am boster yn cadarnhau hyn yn derfynol.

### **'Prydau ar glud Dolwyddelan'**

Wedi eu paratoi'n ffres gan staff cegin Ysgol Dolwyddelan.

Ar gael ddydd Mawrth a dydd lau (yn ystod tymor yr ysgol).

Mae'r pryd ar ddydd lau bob amser yn 'Ginio Sul' bendigedig.

Fel rhan o'r prydau fe gewch chi brif cwrs sylweddol a phwдин.

Gallwn gludo'r prydau i'ch cartref, neu os ydy hi'nwell gennych chi, gallwch eu casglu o'r ysgol.

Mae unrhyw un sy'n teimlo y buasen nhw'n elwa o'r gwasanaeth hwn yn gymwys i archebu prydau.

**Dim ond £3.60 fesul pryd**

I archebu, neu i wybod mwy,  
cysylltwch gydag Ali ar 07538525096

